# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Tachwedd 2020 am 6.00yh trwy linc fideo ar y wê

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 November 2020 at 6.00pm through video link on the web

**Presennol**/Present—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair**/in the chair), John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Morvenna Richards, Steffan Morgan, Debra Griffiths, Trystan Phillips, Richard Jones, Yvonne O'Neil, Shan Williams, Mrs Llinos Haf Jones (**cyfieithydd**/translator), Mr Dave Parkinson (*Tivy-Side*), Mrs Eleri Maskell (**Clerc**/Clerk).

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol /** The Chair's Welcome and Personal Matters.
   **Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod /** The Mayor welcomed everyone to the meeting.

2. **Ymddiheuriadau /** Apologies: *Y Cyngh. /* Cllrs Elaine Evans, Wyn Jones.

3. **Cyflwyniad gan Grŵp Cymunedol**
   **"Dywedwch Na i Ddargyfeirio Traffig Tref Aberteifi".**

   **Diolchodd Jane Borley, Helen Ghazal a Bridget Hiser i'r cynghorwyr am y cyfle i gyfwyno eu barn. Cyn y cyfarfod, roedd y grŵp wedi darparu tystiolaeth ffotograffig a fideo trwy *YouTube* i'r cynghorwyr eu gwylio. Cyfrannodd y tair gyflwyniad dwyieithog yn nodi eu barn ar y cynllun dargyfeirio traffig. Roedd eu gwrthwynebiad yn cynnwys anaddasrwydd y ffordd amgenach, effeithiau negyddol y gwyriad ar ddiogelwch, iechyd a lles, masnachwyr siopau a dyfodol canol tref Aberteifi. Mae'r grŵp hefyd yn pryderu am ddiffyg ymgynghori ac ystyried seilwaith ehangach Aberteifi gan swyddogion Cyngor Sir Ceredigion. Cyfrannwyd i'r drafodaeth gan gynghorwyr; mae'r farn yn gyffredinol yn parhau i fod yn amrywiol ymhlith pawb oedd yn bresennol. Mae rhai cynghorwyr yn cefnogi eu hymgyrch yn llawn. Diolchodd y Maer y grŵp am eu cyfraniad cyn iddynt adael y cyfarfod.**

   Presentation by "We Say No to Cardigan Town Traffic Diversion Community" Group

   Jane Borley, Helen Ghazal and Bridget Hiser thanked the councillors for the opportunity to present their views. The group had, prior to the meeting, supplied photographic and video evidence via *YouTube* for the councillors to view. All three members contributed to a bilingual presentation commencing their opinion on the traffic diversion scheme. Their objections included the unsuitable alternative route, the negative effect of the diversion on safety, health and wellbeing, shop traders and the future of Cardigan town centre. The group also has concerns for the lack of consultation and consideration for the broader infrastructure of Cardigan by Ceredigion County Council officers. Contributions to the discussion were received from councillors, and the overall opinion remains varied amongst all present; some councillors are in full support of their campaign. The members of the community group were thanked by the Mayor and duly left the meeting.

4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**
   Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

| | |
|---|---|
| *Y Cyng* / Cllr John Adams-Lewis | *Materion cynllunio*/ Planning matters |
| *Y Cyng* / Cllr Shan Williams | *Eitem 3* / Item 3 |
| *Y Cyng* / Cllr Clive Davies | *Eitem 3* / Item 3 |
| *Y Cyng* / Cllr Richard Jones | *Eitem 3* / Item 3 |

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Hydref.**
Confirmation of Minutes of 6 October Council Meeting.
**Cywiriad ar dudalen 1662 eitem 10 rhif 186: mae'r swm o £100 i fod yn £1,000.**
Correction on page 1662 Item 10 number 186: the sum of £100 should read £1,000.
**Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 3 Hydref yn gywir.**
Cllr Debra Griffiths proposed that the 3 October council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion** / Matters arising from Minutes.
**Tudalen 1658 9.a): Nid yw'r Cyng. John Adams-Lewis wedi gweld model Gorsaf Rheilffordd Aberteifi eto – gnaiff hynny wedi i'r cyfyngiadau gael eu diddymu.**
Page 1658 9.a): Cllr John Adams-Lewis has not viewed the model of Cardigan Train Station yet but will do so after current lockdown restrictions are lifted.
**Tudalen 1658 9.c): Mae'r Cyng. John Adams-Lewis yn dal i aros am ymateb am berchnogaeth y stribyn o dir yn Felinban.**
Page 1658 9.c): Cllr John Adams-Lewis is still awaiting response regarding the ownership of land in Felinban.

**7. Cynllunio /** Planning:

| *Rhif y Cais /* App. No. | *Cyfeiriad /* Address | *Y Bwriad /* Proposal | *Sylwadau* / Comments |
|---|---|---|---|
| A160425 | Clos Llwynpiod, Heol Ferwig, Aberteifi, SA43 1PJ | *Amrywio amodau 1, 2 a 3 o ganiatâd cynllunio A160425.* Variation of conditions 1, 2 and 3 from planning permission A160425. | *Dim gwrthwynebiad, ymateb a gyflwynwyd yn flaenorol o fewn yr amserlen gywir.* No objection, response previously submitted within correct timeframe. |
| A200817 | Telephone Exchange, Pontycleifion, Aberteifi, SA43 1DN | *Tynnu gwydr ffenestri a'u hailosod ag aluminium louvres.* Remove glass window panes and replace with aluminium louvres. | *Dim gwrthwynebiad /* No objection. |
| A200752 | Norwood, 1 Heol Morgan, Aberteifi SA43 1DF | *Newid defnydd o dŷ tref 3 ystafell wely yn ddwy fflat hunangynhwysol i gynnwys trosi'r atig.* Change of use from a 3 bedroom town house into 2 self-contained flats to include an attic conversion. | *Mae'r cyngor yn gwrthwynebu'r cais hwn – mae digon o fflatiau hunangynhwysol yng nghanol y dref. Mae'r cyngor yn dymuno i'r annedd yma aros fel tŷ traddodiadol 3 ystafell wely i'w ddefnyddio fel tŷ teuluol.* The council objects to this application – there is an ample supply of self-contained flats in the town centre. The council wishes for this dwelling to remain as a traditional 3 bedroom house for use as family housing. |

b) INV190055 Tŷ'r Morfa, Pontycleifion, Aberteifi, SA43 2LD
**I'w osod ar agenda mis Rhagfyr /** To be placed on the December agenda.

**8. (a) Biliau i'w talu /** Bills to be paid.

| *Dyddiad / Date* | *Disgrifiad / Description* | *Côd / Code* | *Rhif y Siec Cheque No.* | *Swm (TAW) / Sum (VAT)* |
|---|---|---|---|---|
| 4/11/20 | Tai Aberteifi Ltd.: *Rhent Swyddfa'r Cyngor* / Rent of Council Office (*Tachwedd/*November). *Band Lydan Rhagfyr)* / Broadband (December) | A9 A20 | D/D 4970 | £250.00 (0.00) £20.00 (0.00) |
| 4/11/20 | Eleri Maskell*: Cyflog y Clerc* / Clerk's Salary (*Hydref/*October) | A5 | 4969 | £1,138.93 (0.00) |
| 4/11/20 | *Bachan Deche* / Handyperson (*Hydref/*October*)* | A19 | 4971 | £372.00 (62.00) |
| 4/11/20 | The Royal British Legion (2 *blethdorch* / wreaths) | A23 | 4972 | £75.00 (0.00) |
| 26/10/20 | SLCC – 12th Edition Local Council Administration | A21 | 4973 | £123.80 (0.80) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 27/10/20 | Puretech Sound System – Gobo Projector | C2 | 4981 | £1,678.67 (279.78) |
| 19/9/20 | Zoom – Webinar fee, one month | D14 | 4974 | £38.40 (6.40) |
| 26/10/20 | Wynford Jones – *Gwaith gyflawnwyd ar gyfrifon 2019-20 ar ôl 31/3/2020.* Work undertaken on the 2019-20 accounts after 31 March 2020 | A5 | 4975 | £220.00 (0.00) |
| 20/10/20 | Llinos Jones – *Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd /* Simultaneous translating service | A18 | 4976 | £60.000 (0.00) |
| 09/10/20 | *Deddf Hapchwarae 2005 – ffi cofrestru/* Gambling Act 2005 – registration fee | A22 | 4977 | £20.00 (0.00) |
| 20/10/20 | Newsquest – *Hysbyseb o Gyfarfod Blynyddol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.* Advert for King George Vth Playing Field AGM | C3 | 4978 | £86.94 (14.49) |
| 29/10/20 | SLCC – *Ffi Aelodaeth*/Membership renewal | A12 | 4979 | £173.00 (0.00) |
| 03/11/20 | J. Harries Electrical | C6 | 4980 | £7.68 (1.28) |

**Cynigiodd y Cyng. Debra Griffiths bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams.**

Cllr Debra Griffiths proposed that the listed bills be paid; this was seconded by Cllr Shan Williams.

***Derbyniadau/***Receipts:

| | | |
|---|---|---|
| 9/9/2020 | Lloyds Bank: *Llog* / Interest | £0.57 |
| 11/08/20 | HM Customs & Excise: *Ad-daliad TAW /* VAT repayment | £5,377.74 |

## 9. Adroddiad y Maer

**a) Gohebiaeth barhaus gyda swyddogion Pwll Nofio Aberteifi;**
**b) Cae Chwarae Brenin Siôr Ved – yn aros am ymateb grant i'r man chwarae plant;**
**c) Cynllunio'r goleuadau Nadolig gyda'r Cyng. Richard Jones, Clerc y Tref, trydanwr a swyddogion y Castell;**
**d) Cynlluniau ar waith ar gyfer trefniadau Sul y Cadoediad;**
**e) Cyfarfodydd parhaus gyda rhanddeiliaid yn y dref ynghylch "Wales and West Development". Anfonwyd gohebiaeth at WWD i gael yr wybodaeth ddiweddaraf;**
**f) Cyfathrebu yn ddyddiol â phrotestwyr yn erbyn mesurau COVID-19 canol tref, gan rannu gwybodaeth rhwng swyddogion Ceredigion ac aelodau lleol;**
**g) Aberteifi yn cael sylw mewn digwyddiad ar-lein "Makers and Mavericks";**
**h) Mynychu Cronfa Lles Tref Aberteifi gyda rhanddeiliaid eraill y dref;**
**i) Cyfarfod â grŵp ynni lleol i sefydlu cynnydd ar y posibilrwydd o wneud Aberteifi yn un o'r trefi carbon niwtral cyntaf;**
**j) Cyflwyno gwobrau i enillwyr cystadleuaeth Cymdeithas Adeiladu'r Principality;**
**k) Agor siop newydd yn Pendre – Body Beautique;**
**l) Ymchwilio i brosiect i osod rhyngrwyd LoRaWAN "Internet of things (IOT)" – dyfeisiau cysylltiedig â'r rhyngrwyd ledled Ceredigion gyda Llywodraeth Cymru;**
**m) Cyfarfod ag Age Cymru, Community Connectors, Porth Cymorth a gwirfoddolwyr Covid-19 i ddatblygu prosiect i ddarparu prydau cinio Nadolig "Meals on Wheels" i aelodau bregus y gymuned. Edrych am arian a gwirfoddolwyr;**
**n) Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r cynghorwyr sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi.**

<u>Mayor's Report</u>

a. Continued correspondence with officers of Cardigan Swimming Pool;
b. King George Vth Playing Field - awaiting grant response for the children's play area;
c. Planning the Christmas lights with Cllr Richard Jones, Town Clerk, electrician and Castle personnel;
d. Plans in place for Remembrance Sunday service;
e. Ongoing meeting with stakeholders in town regarding Wales and West development; correspondence sent to WWH for an update;
f. Daily communication with protestors against town centre COVID-19 measures, sharing information between Ceredigion officers and local members;
g. Cardigan featured in online Makers and Mavericks event;
h. Attended Cardigan Town Wellbeing Fund with other town stakeholders;
i. Meeting with local Energy Group on progress on making Cardigan one of the first potential carbon neutral towns;
j. Presentation to winners of the Principality Building Society art competition for children;

k. Opening of new shop in Pendre: Body Beautique;
l. Researching project to install LoRaWAN "Internet of Things (IOT)" internet connected devices throughout Ceredigion with the Welsh Government;
m. Meeting regularly with Age Cymru, Community Connectors, Porth Cymorth, Covid volunteers to develop project to provide Christmas dinner "Meals on Wheels" for vulnerable community members. Seeking funds and volunteers;
n. Signposting to relative County Councillors concerns and queries raised by Cardigan citizens.

## 10. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** / Reports from County Councillors.

**Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi**

**a) Llongyfarchiadau gwresog i Osian Jones, Bwyty a Phopty Crwst, Aberteifi, ar ddod i'r brig yn y Tiptree World Bread Awards Heroes, dros Gymru, mewn seremoni ar-lein 13 Hydref. Cafodd Osian ei wobrwyo yn bennaf am ei wasanaeth di-dor i gwsmeriaid tra'n pobi bara trwy gydol y pandemig. Byddai'n briodol i'r Cyngor ddanfon carden i'w longyfarch ef a'r tîm.**
**b) Station Road: yn dilyn y tân difrifol mewn uned ger hen orsaf Aberteifi, nos Iau, 24 Medi, derbyniwyd sicrwydd bod BT yn atgyweirio'r gwifrau ffôn ar gyfer busnesau'r ardal sydd wedi bod heb linell ffôn, rhyngrwyd na CCTV ers y digwyddiad.**
**c) Parthau Diogel: Mae'r hewlydd i gyd wedi bod ar agor yn y cyfnod "Firebreak"- gan gynnwys traffig dwy-ffordd rhwng Pendre a'r Mwldan. Yn y cyfamser, mae ymgynghoriad CSC wedi agor dydd Llun, 26 Hydref ac yn derbyn sylwadau hyd at 21 Rhagfyr 2020. Mae'r Holiadur ar wefan y Cyngor ac ar gael mewn Fersiwn Hawdd i'w Ddarllen. Gall rheiny sydd heb fynediad i'r we ffonio CSC ar 01545 570881. Gellir argraffu copi papur, os bydd angen.**
**d) Mae achosion Covid-19 o dan reolaeth yn lleol er bod y ffigurau wedi cynyddu mewn awdurdodau cyfagos. Mae angen dirfawr i gadw at y rheolau.**
**e) Ysgolion: Disgwylir i'r Gweinidog Addysg gyhoeddi dydd Mawrth, 10 Tachwedd y cynlluniau gogyfer â chymwysterau TGAU, AS a lefel A yn 2021.**
**Mae disgyblion pob blwyddyn Gynradd ac Uwchradd nôl yn y dosbarth, heblaw am y rhai sy'n dal i hunan-ynysu.**

Cllr Catrin Miles Teifi Ward

a) Congratulations to Osian Jones, Crwst eatery and bakery, Cardigan, for his success in the Tiptree World Bread Awards Heroes, for the whole of Wales, in an on-line ceremony held on the 13th October. He was awarded principally for his tireless work providing bread to customers during the pandemic. It was agreed for the Town Council to send him and his team a congratulatory card.
b) Station Road: Following the serious fire of 24th September, BT has confirmed that repairs will be undertaken to the cables for businesses on Station Road that have been without telephone, internet or CCTV since that night.
c) Safe Zones: All roads have been open during the Firebreak period including 2-way traffic between the Pendre corner and the Mwldan. In the meantime, CCC launched its consultation on the 4 Safe Zones Monday, 26th October and welcomes responses until the 21st December 2020. The questionnaire is available on the CCC website (and also in an Easy to Read version). Those without internet access can telephone their views on 01545 570881. A paper copy is also available.
d) Covid-19 cases are under control locally but numbers have increased in neighboring authorities; it's still vital to keep to the rules.
e) Schools: Education Secretary Kirsty Williams, announces today the arrangements for GCSE, AS and A level qualifications in 2021.
By today, all years (Primary and Secondary) will be back at school, excepting those individuals who are still isolating.

**Ni dderbyniwyd adroddiadau oddi wrth y Cyng. Elaine Evans na'r Cyng. John Adams-Lewis.**
No reports received from Cllr Elaine Evans or Cllr John Adams-Lewis.

## 11. **Gohebiaeth** / Correspondence.

| | *Llythyron i'w nodi / i'w darllen*<br>*Letters to be noted / read* | *Sylwadau / Comments* |
|---|---|---|
| 187 | Bridget Hiser: "We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group – *Dyfodol parthau diogel Aberteifi, cynllun dargyfeirio traffig /* The future of Cardigan Safe Zones, traffic diversion scheme. | *Pwyntiau wedi'u trafod yn y cyflwyniad*.<br>Points discussed in presentation. |
| 188 | Mr Paul Williams – *Llythyr yn diolch i'r Cyng. John Adams-Lewis am y deyrnged i'w fam, y ddiweddar Mrs Sandra Williams.*<br>Letter thanking Cllr John Adams-Lewis for the tribute to his mother, the late Mrs Sandra Williams. | *Nodwyd /* Noted. |
| 189 | Bridget Hiser: "We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group – *Cais i gynghorwyr unigol roi barn ar y pedestreiddio /* Request for individual councillors to give their opinion on the pedestrianisation scheme. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 03/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 03/10/2020. |
| 190 | Bridget Hiser: "We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group – *Ffotograffiau /* Photographs. | *Pwyntiau wedi'u trafod yn y cyflwyniad*.<br>Points discussed in presentation. |
| 191 | Stephen Johnson - *Swyddog Cyllid a Chaffael CS.*<br>Finance and Procurement Officer CCC*:* | *Nodyn atgoffa i ddychwelyd ffurflenni praesept cyn 29 Ionawr 2021 /* Reminder to return precept forms before 29 January 2021. |
| 192 | Emma Harvey – *Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /* Health and Social Services Group: | *Fforwm cynghori gweinidogol ar heneiddio – gwybodaeth llinell gymorth Cymru BAME.*<br>Ministerial advisory forum on ageing – BAME helpline Wales information. |
| 193 | Janet Garner: *Copi o lythyr yn nodi gwrthwynebiad i'r parth diogel /* Copy of letter stating an objection to the safe zone. | *Pwyntiau wedi'u trafod yn y cyflwyniad*.<br>Points discussed in presentation. |
| 194 | Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/*WLGA coronavirus update. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 12/10/2020. |
| 195 | Siân Maerhlein, Bridget Hiser: *Gohebiaeth parth diogel /* Safe zone correspondence. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 12/10/2020. |
| 196 | Leanda Wynn: *Cylchlythyr Mis Medi CIC Hywel Dda.*<br>Hywel Dda CHC's September's Newsletter. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 12/10/2020. |
| 197 | Mr Billy Roche, Ysgol Uwchradd Aberteifi: *Ymholiad i ddefnyddio cyfleusterau Cae Chwarae Brenin Siôr V ar gyfer gwersi addysg gorfforol.* Request to use the King George V Playing Field amenities for physical education lessons. | *Ar agenda'r Pwyllgor Ymgynghori ddiwedd mis Tachwedd.*<br>Placed on the agenda of the Advisory Committee at the end of November. |
| 198 | Bridget Hiser: "We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group – *Copi llythyr anfonwyd i CSC /* Copy of letter to CCC. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 12/10/2020. |
| 199 | Steff Griffiths – *Cydlynydd Gorllewin Cymru*/ West Wales Co-ordinator Playlist for Life. | *Elusen cerddoriaeth dementia, adnoddau a gwybodaeth newydd am ddim – Y Cyng Siân Maerhlein wedi derbyn y pecyn /* Music dementia charity, free new resources and information – Cllr Siân Maehrlein has obtained the package. |
| 200 | David Richards - *Arbed am byth Cymru: Poster ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni /* Poster for the energy efficiency scheme. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 13/10/2020. |
| 201 | Sarah Bowen – *Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol /* Community Cohesion Officer. | *Taflenni gwrthsemitiaeth newydd.*<br>New antisemitism leaflets. |

| | | |
|---|---|---|
| 202 | Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/*WLGA coronavirus update. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 15/10/2020. |
| 203 | Neil Hemington – *Y Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio/*Chief Planner, Planning Directorate. | *Cyhoeddiadau Polisi: Prynu Gorfodol.*<br>Policy Announcement: Compulsory Purchase. |
| 204 | Marianne de Vries - *Peiriannydd Cynorthwyol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol CSC /* Assistant Engineer Highways and Environmental Services CCC. | *Diweddariad ar broblem cymorth priffyrdd A484 Aberteifi.*<br>Update on highway support issue A484 Cardigan. |
| 205 | Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – | *Gweminar rhad ac am ddim – cyllidebu cyfranogol ar gyfer ymgysylltu ystyrlo.*<br>Free webinar – Budgeting for meaningful engagement. |
| 206 | Christopher Curry – *Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol /* Flood and Coastal Risk Management Team. | *Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.*<br>National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management in Wales. |
| 207 | *Archwilio Cymru /* Audit Wales. | *Trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn y dyfodol.*<br>Future Audit Arrangements for community and town council in Wales. |
| 208 | Mr Tim Tagg: *Ymgynghoriad TU côd priffyrdd beic.*<br>Cycle UK Highway Code consultation. | *Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 23/10/2020.*<br>For your information. Forwarded to all councillors on 23/10/2020. |
| 209 | *Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Benfro /* Pembrokeshire County Council and Pembrokeshire Coast National Park. | *Canllawiau cynllunio atodol draft.*<br>Draft supplementary planning guidance. |
| 210 | Clare Griffiths – *Cyngor ar Bopeth Ceredigion /* Ceredigion Citizens Advice. | *Gwybodaeth prosiect cyrhaeddiad gwledig.*<br>Rural reach project information. |
| 211 | Jane Borley - "We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group: *Sylwadau ar arolwg parthau diogel.*<br>Comments on safe zone survey. | *Pwyntiau wedi'u trafod yn y cyflwyniad*.<br>Points discussed in presentation. |
| 212 | Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice ales. | *Canlyniadau'r Arolwg ar weithio o bell.*<br>Remote meeting survey results. |
| 213 | Stephen Johnson<br>*Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael CSC*<br>Corporate Lead Officer Finance and Procurement CCC. | *Manylion 3ydd taliad Praesept.*<br>Remittance Advice 3rd Precept payment. |
| 214 | Tim Edwards *Cangen Rheoliadau Polisi Gwastraff, Llywodraeth Cymru /* Waste Regulation Policy Branch, Welsh Government. | *Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 a Memorandwm Esboniadol.*<br>Waste (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020 and Explanatory Memorandum. |
| 215 | Gemma Delafield – Cardigan Corona Help: *Gorffen gweithredu /* Ceasing to operate. | *Mae derbynwyr y gwasanaeth wedi cael eu cyfeirio at CSC. Y Clerc i anfon llythyr gwerthfawrogiad am eu holl waith caled.*<br>Recipients of the service have been referred to CCC. The Clerk to send a letter of appreciation for all their hard work, |
| 216 | Lauren Morrison – *Rheolwraig Rhaglen Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru* / Electoral Reform Programme Manager, Welsh Government. | *Newyddlen Etholiadol LlC, Hydref.*<br>WG Electoral Newsletter, October. |
| 217 | Rachel Mathews – Slow Ways Walking Routes. | *Yn agored i Gynghorwyr wirfoddoli ar gyfer y fenter.*<br>Open to Councillors to volunteer for the initiative. |
| 218 | *Y Cyng. /* Cllr Clive Davies: | *Linc ar gyfer riportio amheuaeth o dorri rheoliadau Covid-19.*<br>Link for reporting suspected breaches of Covid-19 regulations. |

| | | |
|---|---|---|
| 219 | Steve Jones – *Prif Weithredwr Grŵp Barcud.*<br>Barcud Group Chief Executive. | *Uno gwasanaethau tai, Tai Ceredigion a Thai Canolbarth Cymru /* Housing Association Merger, Tai Ceredigion and Mid-Wales Housing Association. |
| 220 | David a Brenda Weller, Trwyn-yr-Allt, Gwbert Road, Aberteifi – *Sylwadau ar gais cynllunio A200737 /* Observations on planning application A200737. | *Mae'r arsylwadau'n adlewyrchu'r ymateb a gyflwynwyd gan y cyngor.* The observations are reflective of the response submitted by the council. |

## 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**a) Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Is-Bwyllgor Addurniadau'r Dref 26 Hydref 2020.**
Confirmation of minutes for the Sub-Committee Town Decorations Meeting on 26 October 2020.
**Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion 26 Hydref yn gywir ac eilwyd gan y Cyng. Richard Jones.**
Cllr Debra Griffiths proposed that the 26 October minutes be recorded as correct seconded by Cllr Richard Jones.
**Materion yn codi o'r Cofnodion /** Matters arising from Minutes:

**Cadarnhaodd y Cyng. Richard Jones y byddai'r taflunydd Gobo a baner newydd Dydd y Cadoediad yn cael eu codi ddydd Gwener, 6 Tachwedd 2020. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer y gweithlu angenrheidiol i godi'r addurniadau Nadolig. Nododd y Clerc fod y costau yn y Cofnodion i gyd yn amcangyfrifon, ac yn amodol ar fân newidiadau. Ni dderbyniwyd anfonebau eto. Mae angen trefnu cyfleusterau storio ar gyfer yr addurniadau Nadolig.**

Cllr Richard Jones confirmed that the Gobo projector and the new Remembrance Day banner would be erected on Friday, 6 November 2020. A date is yet to be set for the necessary works to erect the Christmas decorations. The Clerk noted that the costs in the Minutes were all estimates, and subject to minor changes; invoices for the purchase, repair and erection of all decorations have not as yet been received. Storage facilities for Christmas decorations need to be arranged.

**b) Adroddiad Bachan Deche:** Handyman's Report:

i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed /** King George 5th Children's Play Area.
**Dim materion** / No issues.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/** Multi-purpose play area and Tennis Courts.
**Dim materion** / No issues.

iii. **Maes Sgrialu /**Skateboard Park
**Dim materion** / No issues.

iv. **Cyffredinol /** General
**Cynlluniau ar waith ar gyfer codi'r Gobo ddydd Gwener, 6 Tachwedd a chodi'r goeden Nadolig ddiwedd y mis.**
Plans in place for erecting the Gobo on Friday, 6 November and erecting the Christmas tree at the end of the month.

## 13. Toiledau canol y dref / Town Centre Toilets.

**Mae Oxfam yn dal i geisio cymryd drosodd rhedeg toiledau cyhoeddus Chancery Lane sydd wedi eu lleoli y tu ôl i'w siop yn y Stryd Fawr. Mae'r rheolwr yn bwriadu agor a chau'r toiledau yn ddyddiol a gosod caead rholio i lawr i atal fandaliaeth. Os bydd yn llwyddiannus, gellir ymestyn y cynllun i'r toiledau yn Feidr Fair. Mynegodd y Cynghorwyr bryder ynghylch posibilrwydd fod datgysylltiad dŵr parhaol i'r toiledau yn Feidr Fair ar y gweill. Gofynnwyd i'r Clerc holi am ddiweddariad ar y pwyntiau hyn. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles anfon llythyr ymholi hefyd.**

Oxfam are still attempting to take over the running of the public toilets situated behind their High Street shop in Chancery Lane. The manager intends to open and close the toilets on a daily basis and installing a roll-down shutter to prevent vandalism. If successful, the scheme may be extended to the toilets in Feidr Fair. The Councillors expressed concern at the possibility that a permanent disconnection of water to the toilets in Feidr Fair may be planned in the near future. Action for Clerk to request an update on these points. Cllr Catrin Miles agreed to send a letter of enquiry.

**14. Hysbysiad o gwblhau'r Archwiliad /** Notice of conclusion of audit.

a) **Yr Archwilydd Allanol Grant Thornton DU sy'n cynnal yr achwiliad ar ran, ac yn unol â, chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail eu hadolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol maent yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi yn unol ag arferion priodol ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw gan beri pryder bod deddfwriaeth a rheoliadau berthnasol lle ni fodlonwyd y gofynion. Dychwelwyd y ddogfen wedi'i llofnodi yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn i Gyngor Tref Aberteifi ar 9 Hydref 2020.**

The External Auditor Grant Thornton UK conducts the audit on behalf of, and in accordance with, guidance issued by the Auditor General for Wales. On the basis of their review of the Annual Return and supporting information they conclude that the information contained in the Annual Return for Cardigan Town Council is in accordance with proper practices and no matters have come to their attention giving cause for concern that relevant legislation and regulatory requirements have not been met. The signed document confirming these findings was returned to Cardigan Town Council on the 9 October 2020.

b) **Gosodwyd y ddogfen "Hysbysiad o gwblhau'r archwiliad am y flwyddyn gyfrifon a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020" ar hysbysfwrdd cyngor y dref, drws y swyddfa a'r wefan ddydd Iau, 15 Hydref 2020 fel y nodir o dan rheoliad 29 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Rhaid arddangos yr Hysbysiad hwn am 14 diwrnod.**

The document "Notice of Conclusion of Audit, accounts for the year ended 31 March 2020" was placed on the town council notice board, office door and website on Thursday, 15 October 2020 as specified under the regulation section 29 of the Public Audit (Wales) Act 2004 – The Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. This notice is to be displayed for 14 days.

**Nodwyd yr adroddiad a chynigiwyd bod y cyngor yn ei gymeradwyo gan y Cyng Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng Graham Evans.**

The report was noted and approved by the council as proposed by Cllr Shan Williams and seconded by Graham Evans.

**15. Prydau Nadolig yn rhad ac am ddim /** Free Christmas meals.

**Mae'r Maer yn gweithio ochr yn ochr ag Age Cymru, Community Connectors, Wales and West Housing, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chaffi Emlyn i ddarparu cinio Nadolig 2 gwrs i oddeutu 150 o aelodau bregus y gymuned mewn wardiau lleol. Gwnaed ceisiadau am grantiau i CAVO i dalu costau'r cynllun a amcangyfrifir i fod yn £1,500. Fodd bynnag, os yw'r cais yn aflwyddiannus, mae'r Maer yn awgrymu y gallai'r cyngor dalu'r costau. Cynigiwyd yr awgrym gydag uchafswm o £1,250 ar gael, pe bai angen, gan y Cyng. Richard Jones, ac eilwyd gan y Cyng. Siân Maerhlein. Caiff gwybodaeth am y cynllun ei rhyddhau i'r wasg. Gwahoddir gwirfoddolwyr drwy gysylltu â Mrs Sue Lewis yn Age Cymru.**

The Mayor is working alongside Age Cymru, Community Connectors, Wales and West Housing Social Services, Cardigan Food Bank and Caffi Emlyn to provide a 2 course Christmas dinner for approximately 150 vulnerable members of the community in local wards. Applications have been made for grants to CAVO to cover the costs of the scheme estimated at £1,500. However, if unsuccessful, the Mayor wishes to secure that the costs could be covered by the Council.
The proposal by Cllr Richard Jones and seconded by Cllr Siân Maerhlein was accepted – a maximum of £1,250 would be available, if required. Information regarding the scheme will be released to the press; volunteers to contact Mrs Sue Lewis at Age Cymru.

**16. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

**a) <u>Y Clerc / The</u>** <u>Clerk:</u>

**i. Mae copi caled Cymraeg a Saesneg o'r llyfryn "Coridor rheilffordd strategol newydd ar gyfer Gorllewin Cymru" a gyhoeddwyd Medi 2020 gan Traws Link Cymru, Ymgyrch Rheilffordd Gorllewin Cymru, ar gael yn y swyddfa.**

A Welsh and English hard copy of the publication "A new strategic rail corridor for West Wales" published September 2020 by Traws Link Cymru, West Wales Rail Campaign, is available at the office.

**ii. Mae'r Clerc wedi derbyn llythyrau diolch a derbynebau gan bron pob un o'r cymdeithasau y dyfarnwyd grantiau Cyngor Tref iddynt y mis diwethaf.**

The Clerk has received thank you letters and receipts from nearly all of the associations awarded Town Council grants last month.

**b) <u>Y Cyng/</u>**<u>Cllr Siân Maerhlein</u>

**Ymholiad ynghylch dwy darian Cyngor Tref i'w cyflwyno am wasanaeth eithriadol i'r gymuned yn gynharach yn y flwyddyn: cadarnhaodd y Clerc eu bod yn dal i fod yn y swyddfa yn aros am gyfnod priodol i'w cyflwyno'n bersonol i'r derbynwyr.**

Enquiry regarding the two Town Council shields to be awarded for exceptional service to the community earlier in the year: the Clerk confirmed that they were still in the office awaiting an appropriate time to be presented personally to the recipients.

**Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.10yh**

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.10pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....